

Hawdd ei Ddeall



University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

Prosiect Mesur y Mynydd

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod yn 2020



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **brosiect Mesur y Mynydd**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Adroddiad Casglu Straeon 2020 – Crynodeb Gweithredol'**.

Ionawr 2021


Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.



Os oes unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto maen nhw'n cael eu dangos mewn **ysgrifen glas normal**. Gallwch chi weld beth maen nhw'n feddwl yn y **Geiriau anodd** ar **dudalen 13**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl **Prosiect Mesur y Mynydd**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: www.mtm.wales

E-bost: rachel.iredale@southwales.ac.uk

Ffôn: 07742 446 091



Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma	2
Cynnwys	3
Cyflwyniad	4
Sut rydyn ni wedi darganfod straeon pobl.....	6
Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod.....	7
Rhagor o bethau rydyn ni wedi ei ddarganfod.....	8
Beth sydd angen ei newid	11
Geiriau Anodd	13

Cyflwyniad



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prosiect ydy **Mesur y Mynydd** sydd wedi cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru.

Fersiwn Howdd ei Ddarllen o'r

**Deddf Gwasanaethau
Cymdeithasol a Llesiant
(Cymru) 2014**



Mae'r ddiagram howdd ei darllen hon yn
mabwys'io bodedf.
Nid yw'r ddiagram howdd ei darllen hon yn
gyflawn.

Khosi i chi darllen y Ffônodol er mwyn
gwneud beth mwy'n gyhoeddus.

Tudalen 1 o 83

Mae'r prosiect wedi cael ei seilio ar ddeddf o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** a'r gwahaniaeth mae wedi ei wneud efallai.



Roedden ni eisiau gweld os oedd **Gwasanaethau Cymdeithasol** yng Nghymru yn gwneud gwaith da.




Gwasanaethau cymdeithasol ydy gwasanaethau sydd yn cael eu rhoi i bobl pan maen nhw angen help a chefnogaeth.



Roedden ni eisiau clywed gan bobl sydd yn defnyddio **gwasanaethau cymdeithasol** yng Nghymru. A phobl sydd yn ofalwyr sydd ddim yn cael eu talu.



Fe wnaethon ni ofyn i bobl os oedd **gwasanaethau cymdeithasol** yn gwneud gwaith da.



Mae'r adroddiad yma yn dweud wrthy ch chi beth rydyn ni wedi ei glywed gan bobl.

Sut rydyn ni wedi darganfod straeon pobl



Roedd pawb yn rhannu eu straeon yn y ffordd roedden nhw eisiau gwneud.



Roedd rhai pobl yn siarad a rhai pobl yn rhannu straeon ar-lein.



Fe wnaethon ni ddefnyddio offeryn arbennig i gasglu straeon pobl.



Roedd yr offeryn arbennig yn gwneud yn siŵr bod y ffordd roedden ni'n casglu straeon pobl yn deg.

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Fe wnaethon ni gasglu 520 o straeon gan 421 o bobl o bob oed.



Roedd dros hanner y bobl yn fenywod.



Roedd llai na hanner y bobl yn anabl.



Roedd bron i hanner y bobl yn edrych ar ôl rhywun arall.



Fe wnaethon ni ddarganfod bod bywydau llawer o bobl yn galed. Maen nhw angen [gwasanaethau cymdeithasol](#) i'w helpu nhw.



Fe wnaethon ni ddarganfod ei bod yn bwysig iawn bod pobl yn garedig ac yn gofalu am ei gilydd.

Rhagor o bethau rydyn ni wedi ei ddarganfod



Mae gofalwyr sydd ddim yn cael eu talu yn gweithio'n galed iawn i helpu'r bobl maen nhw'n gofalu amdany'n nhw.



Mae pobl yn aml yn ei chael yn anodd i gael yr help a'r gwasanaethau maen nhw eu hangen.



Yn aml mae'r gwaith mae'r gwasanaethau yn ei wneud yn stopio sefyllfaoedd pobl rhag mynd yn waeth.



Roedd pobl yn aml yn siarad am deimlo nad oedd ganddyn nhw reolaeth dros eu sefyllfa. Na dewisiadau.



Weithiau, roedd gwasanaethau yn gwneud sefyllfaoedd pobl yn waeth.



Weithiau roedd pethau syml yn gwneud gwahaniaeth i bobl. Er enghraifft, gwybod enw person ac ateb galwadau ffôn.



Mae rhai **gwasanaethau cymdeithasol** yn well na rhai eraill am rannu gwybodaeth â'i gilydd.



Roedd pobl yn tueddu i ddarganfod bod y gwasanaethau oedd yn gweithio gyda'i gilydd yn darparu gwell gwasanaethau.



Roedd hyn yn bwysig iawn wrth symud o un fîm i un arall. Er enghraifft o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.



Roedd gan bobl lawer o brofiadau positif am **gydgynhyrchu**.



Cydgynhyrchu ydy lle mae pobl sydd yn derbyn gwasanaethau yn cymryd rhan yn gyfartal trwy gael dweud beth maen nhw'n feddwl a chynllunio sut mae'r gwasanaethau hynny yn cael eu rhedeg.



Er enghraifft, wrth ffurfio grwpiau gyda phobl eraill.



Roedd llawer o siarad am lesiant. Roedd pobl yn dweud eu bod nhw'n aml yn gofalu am aelodau teulu tra'n ceisio edrych ar ôl eu hiechyd corfforol a meddwl eu hunain.



Roedd llawer o bobl yn dweud bod gwasanaethau wedi cael effaith drwg ar eu hiechyd meddwl.



Roedd straeon pobl yn dangos pa mor bwysig ydy hi i wasanaethau ddarparu'r gefnogaeth gywir i bobl a gwneud eu bywydau yn fwy hawdd.

Beth sydd angen ei newid



Mae straeon pobl yn dangos pa mor bwysig ydy gwranddo ar bobl, eu parchu nhw a'u cynnwys nhw yn y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn.



Mae gweithio gyda phobl a deall eu bod nhw'n gwybod llawer am beth maen nhw ei angen yn bwysig iawn.



Ddylai hi ddim bod yn anodd i bobl gael y cymorth maen nhw ei angen. Na gwybod pa help sydd ar gael.



Mae angen i'r **holl wasanaethau cymdeithasol** ddangos parch i bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau.



Mae angen i'r **holl wasanaethau cymdeithasol** fod yn wrandawyr da.



Mae angen i'r **holl wasanaethau cymdeithasol** ei gwneud yn hawdd i bobl gael yr help maen nhw ei angen.



Rhaid i'r **holl wasanaethau cymdeithasol** ddeall beth mae pob person ei angen ganddyn nhw.

Geiriau Anodd

Cydgynhyrchu

Dyma lle mae pobl sydd yn derbyn gwasanaethau yn cael cymryd rhan cyfartal trwy gael dweud eu barn a chynllunio sut mae'r gwasanaethau hynny yn cael eu rhedeg.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Gwasanaethau cymdeithasol ydy unrhyw wasanaethau sydd yn cael eu darparu i bobl pan maen nhw angen help a chefnogaeth.